

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Ffordd Osgoi Caerfyrddin, Sir
Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau
Dros Dro) 2025

The A40 Trunk Road (Carmarthen
Bypass, Carmarthenshire)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2025

Gwnaed 14 Ebrill 2025
Yn dod i rym 23 Ebrill 2025

Made 14 April 2025
Coming into force 23 April 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Osgoi Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Ebrill 2025.

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Carmarthen Bypass, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025 and this Order comes into force on 23 April 2025.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“works period”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 23 Ebrill 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“the trunk road”) yw cefnffordd yr A40 Llandeilo i Gaerfyrddin.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Ebrill 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pen-sarn hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Glangwili, Caerfyrddin.

Y darn o’r gilfan gyfagos i gerbyttffordd tua’r gogledd-ddwyrain y gefnffordd a leolir 1.42 cilometr i’r gogledd o Gylchfan Llangynnwr, Caerfyrddin.

Y darn o’r gilfan gyfagos i gerbyttffordd tua’r de-orllewin y gefnffordd a leolir 540 o fetrau i’r de o Gylchfan Glangwili, Caerfyrddin.

“the trunk road” (“y gefnffordd”) means the A40 Llandeilo to Carmarthen trunk road;

“works period” (“cyfnod y gwaith”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 23 April 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 14 April 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from its junction with the north-eastern side of Pensarn Roundabout to its junction with the south-western side of Glangwili Roundabout, Carmarthen.

The length of the lay-by adjacent to the north-eastbound carriageway of the trunk road that is located 1.42 kilometres north of Llangynnwr Roundabout, Carmarthen.

The length of the lay-by adjacent to the south-westbound carriageway of the trunk road that is located 540 metres south of Glangwili Roundabout, Carmarthen.